# DEDDF TRETH TRAFODIADAU TIR A GWRTHWEITHIO OSGOI TRETHI DATGANOLEDIG (CYMRU) 2017

---

## EXPLANATORY NOTES

### SYLWEBAETH AR YR ADRANNAU

### Rhan 5 – Cymhwyso'R Ddeddf a Dcrht I Bersonau a Chyrff Penodol

#### *Adran 33 - Cwmnïau*

50. Mae'r adran hon yn diffinio "cwmni" fel unrhyw gorff corfforaethol neu gymdeithas anghorfforedig (ond nid partneriaethau), ac yn datgan sut y mae'r Ddeddf a DCRhT yn gymwys i gwmnïau. Mae'n pennu y dylai cwmni weithredu drwy "swyddog priodol" (is-adran (2)) y cwmni neu'r person a awdurdodir i weithredu ar ran y cwmni, ac eithrio yn achos datod cwmni. Mewn achos o'r fath y datodwr neu'r gweinyddwr (is-adran (6)) yw'r swyddog priodol.

#### *Adran 34 - Cynlluniau ymddiriedolaeth unedau*

51. Mae adran 34 yn darparu y caiff cynllun ymddiriedolaeth unedau ei drin at ddibenion treth trafodiadau tir fel pe bai'r ymddiriedolwyr yn gwmni, a hawliau'r deiliaid unedau yn gyfranddaliadau yn y cwmni, ac eithrio mewn perthynas â rhyddhad gr#p, rhyddhad atgyfansoddi neu ryddhad caffael.

52. Rhoddir p#er i Weinidogion Cymru wneud darpariaeth bellach, drwy reoliadau (sy'n ddarostyngedig i'r weithdrefn gadarnhaol), sy'n pennu bod cynllun o ddisgrifiad a bennir yn y rheoliadau i'w drin fel pe na bai'n gynllun ymddiriedolaeth unedau at ddibenion y Ddeddf hon a DCRhT.

#### *Adran 35 - Cwmnïau buddsoddi penagored*

53. Mae'r adran hon yn rhoi p#er i Weinidogion Cymru wneud rheoliadau er mwyn sicrhau bod darpariaethau'r Ddeddf hon a DCRhT yn gymwys i gwmnïau buddsoddi penagored yn yr un modd ag y maent yn gymwys i gynlluniau ymddiriedolaeth unedau (yn ddarostyngedig i unrhyw addasiad y mae Gweinidogion Cymru yn ystyried ei fod yn briodol).

#### *Adran 36 - Cynlluniau contractiol awdurdodedig cyfberchnogaeth*

54. Mae adran 36 yn darparu bod cynllun contractiol awdurdodedig cyfberchnogaeth ("CCAC") i'w drin at ddibenion treth trafodiadau tir fel pe bai'r cynllun yn gwmni, a hawliau'r cyfranogwyr yn gyfranddaliadau yn y cwmni, ac eithrio mewn perthynas â rhyddhad gr#p, rhyddhad atgyfansoddi neu ryddhad caffael. Rhaid i CCAC gael ei gyfansoddi yn unol â deddfwriaeth gwasanaethau ariannol berthnasol y DU, neu o dan gyfraith gwladwriaeth AEE ac eithrio'r DU.

55. Rhoddir p#er i Weinidogion Cymru wneud darpariaeth bellach, drwy reoliadau (sy’n ddarostyngedig i’r weithdrefn gadarnhaol), sy’n pennu bod cynllun o ddisgrifiad a bennir yn y rheoliadau i’w drin fel pe na bai’n CCAC at ddibenion y Ddeddf hon a DCRhT.

### *Adran 37–40* - ***Cydbrynwyr***

56. Mae adrannau 37 - 40 yn pennu sut y mae darpariaethau’r Ddeddf hon a DCRhT yn gymwys i gydbrynwyr (ac eithrio partneriaid ac ymddiriedolwyr). Mae cyfrifoldeb ar gydbrynwyr, ar y cyd ac yn unigol, i gydymffurfio â’r rhwymedigaethau a osodir ar y prynwr gan y Ddeddf hon a DCRhT. Mae hyn yn cynnwys cydymffurfio wrth ddychwelyd ffurflenni treth, ac wrth dalu unrhyw dreth sy’n ddyledus. Rhaid i’r holl brynwyr wneud datganiadau, fodd bynnag.

### *Adrannau 41-42* - ***Partneriaethau ac Ymddiriedolaethau***

57. Mae adran 41 yn cyflwyno Atodlen 7 sy’n darparu ar gyfer cymhwyso’r Ddeddf hon a DCRhT i bartneriaethau, ac yn darparu y caiff Gweinidogion Cymru drwy reoliadau ddiwygio’r Atodlen hon.

58. Mae adran 42 yn cyflwyno Atodlen 8 ar Ymddiriedolaethau, sy’n gwneud darpariaeth ynghylch cymhwyso’r Ddeddf hon a DCRhT i ymddiriedolaethau, ac yn darparu y caiff Gweinidogion Cymru drwy reoliadau ddiwygio’r Atodlen hon.

### *Adran 43* - ***Personau sy’n gweithredu fel cynrychiolwyr***

59. Mae’r adran hon yn ymdrin â’r modd y mae darpariaethau’r Ddeddf hon a DCRhT yn gymwys i berson sy’n gweithredu fel cynrychiolydd, megis pan fo person yn gweithredu ar ran rhywun y mae llys yn cyfarwyddo ac yn rheoli ei asedau, neu ysgutor ystad person a fu farw. Yn y sefyllfa hon, y person sy’n gweithredu fel cynrychiolydd sy’n gyfrifol am gydymffurfio â gofynion y Ddeddf hon (megis dychwelyd ffurflen dreth a thalu unrhyw dreth sy’n ddyledus). Mae’r adran hon hefyd yn gwneud darpariaeth ynghylch derbynwyr.